**Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)**

**24 Medi 2020**

<u>**Yn bresennol**</u>

**Eluned Jones, John Hamer, Phil Coates, Rebecca Rees, Rafe Osborne** (Llywodraeth Cymru), **Rachel Mulholland** (Cefas), **Lucie Skates**, **Karen Perrow & Helen Bloomfield** (CNC), **Mike Butterfield** (RYA Cymru), **Mel Nicholls** (MMO), **Jonny Boston & Joe Smithyman** (Ystadau'r Goron), **Emily Williams** (RSPB), **Manon Kynaston & Jess Hooper** (Ynni Môr Cymru), **Kam Tang & Sara Barrento** (Prifysgol Abertawe), **Jillian Whyte** (JNCC), **Mark Simmonds** (Porthladdoedd Prydain), **Mark Russell** (Mineral Products Association), **Stephen Jay** (Prifysgol Lerpwl), **David Jones** (BlueGen), **Jetske Germing** & **Paul Renfro** (PCF), **Jennifer Godwin** (SUDG), **Clair McFarlan** (Solway Firth Partnership), **Neville Rookes** (CLILC)

1. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan dîm Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru yw bod y contract i ddatblygu Canllawiau Gofodol i Sectorau bellach wedi'i ddyfarnu ac y bydd y gwaith yn dechrau cyn hir. Mae'r Grŵp eisoes wedi cael ei ddiweddaru ar y cynigion. Bydd y Canllawiau'n dehongli tystiolaeth ofodol ar gyfer sectorau morol sydd naill ai yn eu cyfnodau cynnar neu ar ymddangos. Bydd cyfraniad rhanddeiliaid yn allweddol ar gyfer llywio'r gwaith, felly bydd y contractwr, Atkins, yn bresennol yng nghyfarfod nesa'r MPSRG i drafod y gwaith ond yn y cyfamser, byddant yn cysylltu â rhanddeiliaid bob yn un.

2. Cafwyd cyflwyniad gan Ynni Môr Cymru (MEW) am y sector ynni morol a nodwyd y cyfleoedd a'r heriau. MEW yw'r grŵp o dan arweiniad y diwydiant sy'n cynrychioli diwydiant ynni'r tonnau a'r llanw ac ynni gwynt arnofiol ar y môr yng Nghymru. Mae'n dod â thros 50 o randdeiliaid allweddol ynghyd i sicrhau bod Cymru'n ennill ei lle fel arweinydd byd yn y maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chynaliadwy newydd ar y môr.

3. Cafodd y Grŵp wybod am Rownd 4 proses brydlesu Ystadau'r Goron (TCE), ei rôl yng nghyd-destun datblygu ynni gwynt y môr, y rhaglen arfaethedig o brosiectau a thwf tymor hir gwynt y môr. Busnes annibynnol yw TCE a gafodd ei greu gan Ddeddf Seneddol i reoli portffolio amrywiol o asedau eiddo gan gynnwys yr hawliau i wely'r nôr. Rôl y TCE yw cynyddu gwerth yr Ystâd ac mae'n chwarae rhan bwysig o ran datblygu ynni gwynt y môr. Gofynnwyd a fyddai proses brydlesu wahanol ar gyfer ynni gwynt arnofiol ar y môr. Dywedodd TCE er nad oedd unrhyw beth yn yr arfaeth hyd yma, bod peth trafod yn mynd rhagddi â rhanddeiliaid.

4. Cafwyd diweddariad gan y Sowlay Firth Partnership am gynlluniau morol lleol. Solway Firth yw un o'r un ar ddeg o ranbarthau morol yn yr Alban ac mae'n rhanbarth sy'n rhannu ffin. Bu'r Grŵp yn trafod cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid trawsffiniol a rhinweddau dod â rhanddeiliaid ar y daith gynllunio morol.

5. Cafwyd cyflwyniad gan Brifysgol Abertawe am brosiect Access2Sea. Mae'n un o bartneriaid y prosiect. Amcan y prosiect yw ceisio neilltuo mwy o arfordir yr Iwerydd ar gyfer busnesau dyframaethu bach a chanolig trwy hwyluso cyfleoedd i fusnesau a sicrhau amgylchedd gweithredu mwy cynaliadwy. Clywodd y Grŵp fod meysydd cyffredin rhwng gwledydd fel safonau a thystysgrifau a bod yr heriau'n debyg ond eu bod yn dilyn trywyddau ychydig yn wahanol.

6. Cafwyd cyflwyniad gan Fforwm Arfordir Sir Benfro am Fapiau Gweithgarwch Cymru (WAM) sy'n sylfaen dystiolaeth am weithgarwch hamdden yn ne-orllewin Cymru i hwyluso penderfyniadau ar reoli'r amgylchedd morol. Mae'r prosiect yn cyflwyno data ar y math, swm, nifer a gwasgariad gweithgarwch hamdden/twristiaeth, a chedwir yr wybodaeth ar system GIS. Cafodd WAM ei ddarparu trwy grŵp llywio, felly bu lefel dda o ymwneud â rhanddeiliaid.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@gov.wales